YSGOL BRYNREFAIL

GWENLLIAN ROBERTS
PRIF SWYDDOG AIL-GYLCHU

Ar gais pwyllgor Eco'r Ysgol fe gafwyd cyfarfod yn ddiweddar gyda Gwenllian Roberts, Prif Swyddog Ail Gylchu, Gwynedd.
Y mae'r pwyllgor yn ymgeisio ail drefnu rhai o weithdrefnau'r Ysgol gan geisio creu awyrgylch mwy gwyrdd a thrwy hynny anelu at un o safonau Gwynedd , Efydd,Arian neu Aur.
Yr oedd y wybodaeth a gafwyd gan Gwenllian yn fan dechrau ar y daith safonau ac yr oedd ei sgwrs yn ddiddorol iawn yn ymgeisio egluro pa bethau gellid eu gwneud trwy gydweithrediad gydag adran Ail Gylchu Cyngor Gwynedd.
Mi fydd y pwyllgor yn bwrw ymlaen i greu cynllun gweithredu yn canolbwyntio ar bethau y gallwn, fel Ysgol, eu cyflawni o droi goleuadau i ffwrdd pryd nad oes angen eu defnyddio i brynu papur sydd ei hun wedi ei greu o adnoddau sydd wedi ei ail gylchu.
Y mae'r pwyllgor hefyd yn bwriadu chwarae eu rhan yng nghymuned Llanrug.